Yr Holocost a Chymru

# Aero Zipp Fasteners yn Ystâd Fasnachu Trefforest

**Nodiadau i Athrawon**

Adnodd 1 o 2 yw hwn ar destun Ystâd Fasnachu Trefforest a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r adnodd arall. Mae'r adnoddau yn edrych ar straeon ffoaduriaid Iddewig a ddechreuodd fusnesau yn Ystad Fasnachu Trefforest, ger Pontypridd.

**Mae'r adnodd hwn yn astudiaeth achos o Aero Zipp Fasteners, cwmni a sefydlwyd gan Joachim Koppel, diwydiannwr Iddewig-Almaenig.**

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am Ystâd Fasnachu Trefforest a ble i ddarganfod mwy
- Diffiniad defnyddiol: 'seinwedd'
- Bywgraffiad byr o Joachim Koppel
- Map o Ystâd Fasnachu Trefforest
- Awyrlun o Ystâd Fasnachu Trefforest
- Darn o erthygl papur newydd y *Pontypridd Observer* ar Aero Zipp Fasteners
- Hysbyseb ar gyfer Aero Zipp Fasteners

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

**Nodau dysgu:**

- Deall y rhan a chwaraeodd busnesau ffoaduriaid Iddewig ym mywyd Cymru a Phrydain a sut mae eu straeon wedi llunio hanes lleol yng Nghymru
- Archwilio gwahanol ffyrdd o ddod â hanes yn fyw, gan gynnwys seinwedd a dylunio
- Arbrofi gyda chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn gryno ac yn greadigol trwy eiriau a delweddau
- Datblygu meddwl beirniadol ac ymdeimlad o empathi gyda'r rhai sydd wedi profi dioddefaint yn y gorffennol
- Archwilio pwysigrwydd y stori hon i Gymru a'r byd ehangach a'i chysylltiadau â materion cyfoes, gan gynnwys ffoaduriaid, gwrth-semitiaeth, rhagfarnllyd a hiliaeth

## Cysylltiadau â’r cwricwlwm

### Y Pedwar Diben

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n:

- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â’r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu’r wybodaeth honno a’i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau
- gallu egluro’r syniadau a chysyniadau y maen nhw’n dysgu amdanyn nhw
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau’n feirniadol

Gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy’n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a’u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a’u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a’r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Unigolion iach, hyderus sydd:

- â gwerthoedd sicr ac sy’n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- â’r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau

### Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig

Prif Faes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau
Cam cynnydd: 3 & 4

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Meysydd Dysgu a Phrofiad Eraill:

Iechyd a Lles
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

**Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol**

Llythrennedd
- Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau
- Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth
- Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau

Creadigrwydd ac arloesedd
- Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib
- Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth

Effeithiolrwydd personol
- Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd

**Themâu trawsgwricwlaidd**

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh):

- Mae'r deunydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol yn ymwneud â pherthnasoedd
- Mae'n cefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â materion ACRh lleol, cenedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth (e.e., gwahaniaethu, hiliaeth, gwrth-semitiaeth, ffoaduriaid)

- Mae'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd democrataidd a hawliau dynol ac yn myfyrio ar eu cyfrifoldebau dinesig

**Cynefin – cefnogi dysgu mewn cyd-destunau lleol**

Mae'r Holocost yn bwnc mawr sy'n gallu ymddangos yn ddieithr i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r adnoddau hyn yn galluogi dysgwyr i glywed straeon pobl a gafodd eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr Holocost, ac a oedd yn byw yng Nghymru. Dyma straeon pobl a gyfrannodd at eu cymunedau Cymreig lleol, ac a oedd yn rhan ohonyn nhw. Fe wnaethant ymgartrefu yma a magu teuluoedd yma, ac mae eu hanes yn rhan o stori Cymru.

Mae dysgu am yr Holocost trwy enghreifftiau lleol yn galluogi dysgwyr i ddarganfod eu hetifeddiaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin. Mae hefyd yn cael gwared ar y syniad o 'arwahanrwydd' - bod hyn wedi digwydd i bobl eraill mewn lle ac amser arall - ac yn hytrach yn creu teimladau o gysylltiad ac empathi. Gall yr enghreifftiau lleol hyn helpu dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng hanes Cymru a digwyddiadau byd-eang fel yr Ail Ryfel Byd a'r Holocost.

Y rhestr lawn o 20 adnodd am Yr Holocost a Chymru yw:

- Kindertransport 1: Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd
- Kindertransport 2: Y daith i Brydain
- Kindertransport 3: Cyrraedd Cymru
- Kindertransport 4: Bywyd yng Nghymru
- Kristallnacht 1: Atgofion o Kristallnacht
- Kristallnacht 2: Y bar mitzvah olaf
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 1: Josef Herman
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 2: Heinz Koppel
- Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest
- General Paper and Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest
- Caethiwo 'estron-elynion' 1
- Caethiwo 'estron-elynion' 2
- Ffoaduriaid Iddewig fel gweision domestig
- Meddygon, deintyddion a nyrsys yng Nghymru oedd yn ffoaduriaid Iddewig
- Ffoaduriaid Iddewig ym Myddin Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

- [Bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru]
- [Yr Iaith Gymraeg]
- [Rhyddid]
- [Hunaniaeth]
- [Cofio’r Holocost]

**Syniadau ar gyfer gweithgareddau**

## Gweithgaredd 1

Gellid defnyddio'r adnodd i edrych ar hanes ffoaduriaid oedd yn ddiwydiannwyr yng Nghymru. Darllenwch y **wybodaeth gefndirol** a **bywgraffiad byr** Joachim Koppel ac edrychwch ar y **ffotograff o'r awyr** o Ystad Fasnachu Trefforest. Pam roedd diwydianwyr Iddewig eisiau gadael yr Almaen yn y 1930au? Pam eu bod wedi dewis Cymru fel lloches? Sut allen nhw fod wedi ymateb wrth gyrraedd Trefforest? Pa heriau y gallen nhw fod wedi'u hwynebu wrth gyrraedd?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn ffoadur sy'n ddiwydiannwr sydd newydd gyrraedd Trefforest. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu llythyr byr neu delegram (llai na 100 gair) at eu partner busnes ar y Cyfandir, gan roi eu hargraff o'r ardal a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Dylai'r llythyr neu'r telegram fod yn gryno a rhoi syniad o beth yw eu camau nesaf o ran cadarnhau eu busnes. Dylid rhoi amser ar ddiwedd y wers i fyfyrio ar ymatebion creadigol y dysgwyr.

## Gweithgaredd 2

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i feddwl yn greadigol am y gwahanol ddiwydiannau sydd ar Ystad Fasnachu Trefforest. Darllenwch y **wybodaeth gefndirol** ac edrychwch ar y **map** a'r **ffotograff o Drefforest o'r awyr**. Faint o wahanol gwmnïau sydd wedi'u rhestru? Sawl ffatri wahanol sydd i'w gweld? Nawr edrychwch ar yr hysbyseb ar gyfer Aero Zipp Fasteners, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y logo. Beth mae'r logo yn ei ddweud wrthym am y cwmni? Pa fath o ddelwedd y mae'n ei chyflwyno?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r cwmnïau sydd wedi'u rhestru yn Nhrefforest a dylunio eu logo eu hunain, i'w ddefnyddio mewn hysbyseb fer. Anogwch nhw i fod yn greadigol yn eu dewisiadau dylunio ac i feddwl yn ofalus am y logo terfynol. Rhowch amser ar ddiwedd y wers i fyfyrio ar ymatebion artistig y dysgwyr. Pam wnaethon nhw ddewis y cwmni hwnnw? Sut wnaethon nhw ddylunio eu logo a'u hysbyseb? Pa ddewisiadau dylunio wnaethon nhw, a pham?

## Gweithgaredd 3

Gellid defnyddio'r adnodd i gyflwyno dysgwyr i'r syniad o seinluniau trwy ail-greu seinwedd ffatri Aero Zipp yn Nhrefforest. Darllenwch y diffiniad o seinluniau ac annog dysgwyr i'w drafod. Pa seinluniau maen nhw'n gyfarwydd â nhw yn eu bywydau bob dydd? Sut mae seinwedd yr ystafell ddosbarth/maes chwarae/eu cartref yn swnio?

Mae cam nesaf y gweithgaredd yn gofyn am wrthrychau/offerynnau taro y gellir eu defnyddio i wneud synau ffatri e.g., triongl, blociau pren, sipiau, cribau, caeadau biniau sbwriel, brwshys, drymiau (digon i bawb yn y grŵp gael un eitem).

Nodyn: Byddai rhan ymarferol y wers hon yn gweithio orau mewn gofod mawr fel stiwdio ddrama neu neuadd neu hyd yn oed y tu allan (rhywle lle gallwch chi wneud digon o sŵn!)

Gofynnwch i'r grŵp eistedd mewn cylch mawr gyda'r holl wrthrychau ac offerynnau yn y canol. Gofynnwch i'r grŵp ddisgrifio'r synau y gallent eu clywed mewn ffatri sipiau. Anogwch ymatebion fel:

- Torri metel
- Peiriannau yn chwyrlïo
- Sain sipio wrth i sipiau gael eu profi

Gofynnwch am wirfoddolwr i fynd yn gyntaf (neu gallai'r athro ei ddangos os oes angen) i ddewis gwrthrych a dechrau gwneud sain ar gyfer ein ffatri Aero Zipp. Unwaith y bydd y sain wedi sefydlu, caiff ei ailadrodd mewn rhythm cyson. Yna, mae'r person nesaf yn y cylch yn dewis eu gwrthrych er mwyn ychwanegu sain arall i'n seinwedd. Yn raddol, caiff haenau sain eu cronni. Gallai'r synau hefyd weithio mewn perthynas â'i gilydd e.e., mae un myfyriwr yn gwneud tri thap ar floc, ac un arall yn gwneud ding ar y triongl: 'tap, tap, tap, ding!' Ewch o amgylch y cylch cyfan nes bod y grŵp cyfan yn cymryd rhan. Gallai'r athro neu aelod o'r grŵp weithredu fel arweinydd i gynyddu neu leihau maint y sŵn neu ddwysedd yn ôl yr angen.

Pa mor llwyddiannus oedd yr ymdrechion i ail-greu'r seinwedd yn Aero Zipp?

## <u>Gweithgaredd 4</u>

Roedd llawer o ffoaduriaid oedd yn ddiwydiannwyr yn byw mewn ardaloedd ger Trefforest, gan gynnwys Pontypridd a Chaerdydd. Yn aml, roedden nhw'n byw ar yr un stryd. Darllenwch y **wybodaeth gefndirol** ac edrychwch ar y **map** a'r **ffotograff o Ystad Fasnachu Trefforest o'r awyr**. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth oedd perthynas y ffoaduriaid oedd yn ddiwydianwyr â'i gilydd. Pam y byddai ffoaduriaid yn byw yn yr un ardal (rhesymau diwylliannol/ariannol/ymarferol)? Beth fyddai manteision/heriau hyn?

**Cwestiynau defnyddiol eraill:**

- Pam fyddai Cyngor Diwydiannol Cenedlaethol Cymru a Sir Fynwy wedi awgrymu y dylai ffoaduriaid Iddewig ddechrau busnesau gyda'i gilydd?
- Beth fyddai'r manteision/heriau i'r ffoaduriaid hynny a gafodd eu cyflwyno i'w gilydd drwy'r cynllun hwn?

**Gweithgaredd 5 – Trafodaeth dosbarth**

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i feddwl am effaith ffoaduriaid oedd yn ddiwydianwyr yng Nghymru a Phrydain. Darllenwch y **wybodaeth gefndirol**, **bywgraffiad byr** o Joachim Koppel a'r **darn o erthygl papur newydd** ar Aero Zipp Fasteners.

Beth oedd effaith ffoaduriaid Iddewig oedd yn ddiwydiannwyr ar Gymru? Beth oedd eu heffaith ar Brydain yn ehangach?

**Cwestiynau defnyddiol eraill:**

- Sut wnaeth y gymuned leol yn Nhrefforest elwa o ddyfodiad ffoaduriaid Iddewig oedd yn ddiwydianwyr?
- Sut newidiodd y ffoaduriaid oedd yn ddiwydiannwyr hanes lleol yr ardal?